

2013 Rhif 91 (Cy. 15)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Llanrwst, Conwy) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2013.

Gwnaed 21 Ionawr 2013

Yn dod i rym 3 Chwefror 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A470 Maentwrog - Man i'r Dwyrain o Gonwy (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2013

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 05:00 o'r gloch ar 3 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feiciau pedal, na pheri i unrhyw feiciau o'r fath gael eu reidio, ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 21 Ionawr 2013

R Morgan

R. MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

DARN O GEFNFFORDD YR A470 YN LLANRWST YM MWRDEISTREF SIROL CONWY.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt ar barapet deheuol Pont Fawr wrth gyffordd yr A470 a'r B5106 hyd at sianel ogleddol y gyffordd rhwng yr A470 a Fflatiau Victoria.

